Braenaru **ADY**
**ALN** Pathfinder

# Pontio o'r ysgol i addysg a hyfforddiant ôl-16 ar gyfer pobl ifanc ag ADY

Mae pontio o'r ysgol i addysg a hyfforddiant ôl-16 yn gyfnod pwysig iawn ym mywyd pob person ifanc.

Fel rhan o gynllun Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Llywodraeth Cymru, mae rhai trefniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n ymuno ag addysg a hyfforddiant ôl-16 yn newid.

## Beth sy'n digwydd ar ôl gadael ysgol?

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc Cymru sydd ag ADY yn mynychu coleg Addysg Bellach neu raglen hyfforddi.

Mae colegau Addysg Bellach yn darparu amrywiaeth eang o gyrsiau er mwyn diwallu anghenion dysgwyr.

Mae **darpariaeth gyffredinol** ar gyfer pob dysgwr a bydd anghenion llawer o bobl ifanc ag anawsterau dysgu a / neu anableddau yn cael eu diwallu yn y modd hwn.

Ar hyn o bryd, ni fydd angen **Cynllun Datblygu Unigol** (CDU) ar ddisgyblion sy'n gallu cael mynediad at addysg a hyfforddiant drwy ddarpariaeth gyffredinol.

Ond, o fis Medi 2023, bydd angen CDU ar bob dysgwr sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y coleg i'w helpu gyda'r broses o bontio o'r ysgol i addysg a hyfforddiant ôl-16.

## Beth yw Cynllun Datblygu Unigol?

Dogfen gyfreithiol yw CDU sy'n disgrifio anghenion cymorth dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc, a'r canlyniadau yr hoffent eu sicrhau.

- Yn ddelfrydol, bydd plant sydd ag ADY yn gallu trafod prosesau pontio y dyfodol o Flwyddyn 9 ymlaen, yn ystod eu cyfarfod blynyddol i adolygu'r CDU. Yma, gallant ddysgu mwy am y cyfleoedd a'r llwybrau sydd ar gael iddynt a bydd modd iddynt ofyn cwestiynau. Gall Gyrfa Cymru a staff y coleg hefyd fynychu i gefnogi dysgwyr a'u rhieni yn y cyfarfodydd hyn.
- Bydd yr ysgol a'r Awdurdod Lleol ar gael i roi cyngor ar y llwybrau sydd ar gael ar gyfer y dysgwr.
- Lle bo'n briodol, bydd dysgwyr yn trosglwyddo i'r coleg gyda'u CDU, a bydd y coleg yn gweithio gyda phob person ifanc er mwyn sicrhau bod y cynllun yn addas ar ei gyfer o fewn y cwrs o'i ddewis.

## Dewis coleg addas ar gyfer pobl ifanc ag ADY

Wrth gynghori ar goleg addas i ddysgwr ag ADY, bydd ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn defnyddio'r Cod ADY fel eu canllaw wrth benderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu ei anghenion.

Mae'r Cod yn nodi, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, y dylai pobl ifanc allu mynychu eu haddysg a'u hyfforddiant ôl-16 yn lleol.

Mewn rhai achosion, efallai na fydd dysgwr yn gallu sicrhau'r deilliannau addysg a hyfforddiant y mae'n ei ddymuno yn lleol. Gallai hynny fod oherwydd bod ei anghenion mor gymhleth fel na ellir dod o hyd i ddarpariaeth briodol yn lleol. Yna gall fynychu **Sefydliad Ôl-16 Arbennig Annibynnol (ISPI)**.

**I gael rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth coleg, ewch i wefan:**

**www.braenaruady.cymru**

Braenaru ADY

**Mae SNAP Cymru yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth annibynnol rhad ac am ddim er mwyn helpu i gael yr addysg gywir i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, a bydd yn eu helpu drwy'r broses o bontio. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar eu gwefan:**

**www.snapcymru.org**

---

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses hon, gallwch gysylltu â'ch Awdurdod Lleol:**

**www.adyach.cymru**

**01286 679007**

**GweinyddolADYaCh@gwynedd.llyw.cymru**